Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol Dyffryn Conwy

Diben y Grant Amddifadedd Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (hPYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, ac sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr ymyriad, gan fonitro cynnydd disgyblion yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GAD i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwyso ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Mae'r strategaethau rydym yn eu defnyddio yn cael eu adnabod a'u arfarnu yn erbyn arweiniad arfer orau gan y Sutton Trust ac arweiniad Llywodraeth Cymru.

Yn 2016-17 rhoddwyd i Ysgol Dyffryn Conwy ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o £42,550.

Yn Ysgol Dyffryn Conwy mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Conwy a GwE, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Gynnyddu mynediad disgyblion at Cynghorydd Ysgol;
- Cynnyddu mynediad at Annogwr dysgu sydd yn cynnal Clwb Brecwast, Clwb galw mewn amser cinio, sesiynnau gwaith cartref amser cinio ac ar ol ysgol ynghyd a sesiynnau dal i fyny ac ymyrraeth, sesiynnau adolygu ar gyer arholiadau, profion a cwblhau asesiadau mewnol;
- Cefnogaeth/ymyrraeth arbennigol ar gyfer llythrennedd a rhifedd;
- Penodi Pencampwr PYD i gefnogi a monitro cynnydd a presenoldeb disgyblion PYD;
- Mynediad at ddatblygiad proffesiynol i staff er mwyn cefnogi lles disgyblion;
- Mynediad at ddatblygiad proffesiynol I staff yn ymwneud a dysgu, addysgu ac asesu er mwyn codi safonau gan gynnwys safonau disgyblion PYD. Eleni mae'r flaenoriaeth hon yn cynnwys rhoi sylw penodol i gynllun Meddylfryd Twf sydd

yn rhoi sylw i wella dyfalbarhad, hunan ddelwedd, sgiliau myfyrio a sgiliau hunan asesu disgyblion;

- Sicrhau mynediad at ystod o brofiadau allgyrsiol gan gynnwys trafnidiaeth, gweithgareddau ol ysgol lles a ffitrwydd, gweithgareddau wythnos sgiliau a gweithgareddau ynghyd a gweithgareddau a teithiau eraill sydd yn codi yn ystod y flwyddyn; ac
- Adnoddau i efnogi disgyblion yn deillio o cyfarfodydd adolygu efo'r disgyblion yn ystod y flwyddyn.

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.